

## **Y CYFANSODDIAD ADRAN 6**

### **YR ARWEINYDD**

#### **6.1 Ethol**

6.1.1 Etholir yr Arweinydd gan y Cyngor Llawn.

6.1.2 Fel arfer, etholir yr Arweinydd yn flynyddol mewn cyfarfod blynyddol o'r Cyngor. Fodd bynnag, pan fydd swydd yr Arweinydd yn dod yn wag rhwng etholiadau'r Cyngor, etholir yr Arweinydd yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Llawn.

#### **6.2 Cyfnod yn y Swydd**

Penodir yr Arweinydd yn flynyddol mewn cyfarfod blynyddol o'r Cyngor.

#### **6.3 Ymddiswyddo, Diswyddo, Anghymhwysu a Diarddel**

6.3.1 Caiff yr Arweinydd ymddiswyddo o swydd yr Arweinydd trwy ysgrifennu at y Maer.

6.3.2 Gellir diswyddo'r Arweinydd pan fo'r Cyngor yn derbyn penderfyniad i'w (d)diswyddo yn unol â'r Rheolau isod.

6.3.3 Bydd yr Arweinydd yn peidio â bod yn Arweinydd os caiff ef/hi ei (d)diarddel neu ei (h)anghymhwysu fel Cynghorydd, neu os na all gyflawni rôl yr Arweinydd am resymau eraill o'r fath.

6.3.4 Bydd yr Arweinydd yn peidio â bod yn Arweinydd ar ei farwolaeth neu os bydd yn dioddef unrhyw anabledd a fydd yn ei (h)atal neu sy'n debygol o'i (h)atal rhag ymgymryd â rôl yr Arweinydd am gyfnod o dri mis neu fwy.

#### **6.4 Dirprwy Arweinydd**

6.4.1 Penodi

Bydd yr Arweinydd yn dynodi un o Aelodau'r Bwrdd Gweithredol fel Dirprwy Arweinydd.

6.4.2 Dyletswyddau'r Dirprwy Arweinydd

Caiff y Dirprwy Arweinydd arfer holl swyddogaethau'r Arweinydd pan fo'r swydd yn wag neu pan fo'r Arweinydd yn absennol neu'n methu â gweithredu fel arall.

6.4.3 Diswyddo

Caiff yr Arweinydd, os yw ef/hi o'r farn bod hynny'n briodol, ddiswyddo'r Dirprwy Arweinydd ar unrhyw adeg.

## **6.5 Swyddogaethau ac Awdurdod Dirprwyedig**

### **6.5.1 Aelodaeth y Bwrdd Gweithredol**

Bydd Aelodau'r Bwrdd Gweithredol, yn oystal a'r Arweinydd, yn cae eu ethol yn flynyddol mewn cyfarfod o'r Cyngor, yn amodol yn unig ar y gofyniad bod lleiafswm o ddau, ac uchafswm o naw.

### **6.5.2 Rôl yr Arweinydd**

Bydd yr Arweinydd yn cadeirio cyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol ac yn pennu portffolios Aelodau'r Gweithrediaeth.

### **6.5.3 Cynllun Dirprwyo'r Bwrdd Gweithredol**

Bydd y Swyddog Monitro, mewn ymgynghoriad a'r Arweinydd yn paratoi, a chyflwyno i'w gymeradwyo, Cynllun Dirprwyo'r Gweithrediaeth sy'n amlinellu'r Swyddogaethau Gweithredol a ddirprwyr, gan gynnwys, awdurdod dirprwyedig pob Aelod o'r Bwrdd Gweithredol, ac wedi hynny bydd yn adolygu hyn yn barhaus ac yn cyflwyno diweddariadau i'r Cynllun fel y bo'n briodol. Yn ogystal, mae gan yr Arweinydd bwerau o dan adran 15(4) Deddf Llywodraeth Leol 2000 i gyflawni'n bersonol unrhyw swyddogaethau Gweithredol nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Cynllun Dirprwyo am y tro, neu drefnu iddynt gael eu cyflawni o dan bwerau dirprwyedig pobl eraill.

Nid oes hawl gan unrhyw Aelod o'r Bwrdd Gweithredol i gael Dirprwy, heblaw am yr Arweinydd. Ystyr hyn yw na all unrhyw Aelod o'r Bwrdd Gweithredol gael cyfrifoldebau sy'n golygu y bydd yn gweithio i, neu o dan, unrhyw Aelod arall o'r Bwrdd Gweithredol, ac eithrio'r Arweinydd.

### **6.5.4 Cyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol**

Yn amodol ar y gofyniad i gyhoeddi rhybudd o bob cyfarfod tri diwrnod gwaith clir cyn iddo ddigwydd, ac amodau eraill a gynhwysir yn Adranau 5 a 14, gall yr Arweinydd alw cyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol ar y cyfryw amseroedd ac yn y cyfryw leoedd ag y mae ef/hi yn dewis.

### **6.5.5 Cadeirio Cyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol**

Bydd yr Arweinydd yn cadeirio cyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol. Yn absenoldeb yr Arweinydd bydd y Dirprwy Arweinydd yn cadeirio. Os nad yw'r Dirprwy Arweinydd ar gael bydd y Bwrdd Gweithredol yn penodi Aelod o'r Bwrdd Gweithredol i gadeirio'r cyfarfod ar eu rhan trwy hysbysu'r Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeridaid o'r person a ddewiswyd (yn amodol ar cworwm).

### **6.5.6 Penodi Cynrychiolwyr ar Gyrrff Allanol**

Mae gan yr Arweinydd yr awdurdod i benodi cynrychiolwyr y Cyngor ar gyrrff allanol lle y mae'r cyrrff allanol hynny yn berthnasol i Swyddogaethau Gweithredol y Cyngor.

- 6.5.7 Presenoldeb mewn partiön gardd brenhinol  
Mae gan yr Arweinydd awdurdod i gymeradwyo, mewn ymgynghoriad ag Arweinwyr Grŵp a ddatganwyd, presenoldeb Aelodau a / neu Swyddogion ym Mhartiön Gardd Brenhinol.